# LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
# WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## PECYN ADNODDAU GWELEDOL

Fersiwn 3 – 2024

**Canllawiau ar ddefnyddio logos 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ac 'Y Gymru a Garem', gan gynnwys opsiynau olwynion newydd, eiconau'r nodau ac eiconau newydd y '5 Ffordd o Weithio'.**

# Yng Nghymru rydym yn gwneud pethau'n wahanol.

Mae gennym ddeddf yng Nghymru sy'n ein helpu ni i gyd i gydweithio i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant.

## Dros bobl, dros ein planed.
## Dros y presennol, a dros ein dyfodol.

Ei henw yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Amcan Deddf Llesiant  Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw hwyluso canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Cymru, ein planed a chenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bydd creu ymdeimlad cadarnhaol tuag at y saith nod llesiant yn cryfhau'r syniad bod y nodau llesiant yn darparu diben cyffredin.



# Pecyn Adnoddau Gweledol

## Mae'r Fersiwn hon (2021) yn canolbwyntio ar:

- Graffigyn a Logo Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Y Nodau Llesiant a'u lliwiau
- Y Gymru a Garem
- Y pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Bydd gwaith pellach ar y dyletswyddau amrywiol, yr hanfodion, saernïaeth a delweddau yn rhan o'r cam nesaf. Pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, bydd fersiwn newydd yn cymryd lle'r Fersiwn hon (F2). Mae'r pecyn adnoddau ar gael i unrhyw un ei ddefnyddio.

Mae modd lawrlwytho'r holl eiconau oddi ar **www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau**

## Guiding rules

- Cofiwch ddefnyddio 'llesiant' yn hytrach na 'lles', gan mai 'llesiant' sydd yn y ddeddfwriaeth.
- Wrth dalfyrru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', defnyddiwch 'Deddf LlCD'.
- Efallai na fydd bob amser yn briodol defnyddio'r teitl llawn felly gellir defnyddio ffurf law-fer megis 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.
- Darperir yr holl logos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Dylid defnyddio'r rhain bob tro.
- Rydym wedi cyflwyno'r ddelwedd o fap er mwyn pwysleisio mai camau a gymerir yng Nghymru yw hanfod y nodau hyn.
- Ceisiwch osgoi defnyddio'r eiconau i ganolbwyntio ar un nod llesiant yn unig yn eich dogfennau a'ch adroddiadau. Mae'r nodau'n gydgysylltiedig ac ni ellir eu trin ar wahân i'w gilydd.



# Teulu logos

01_Graffigyn

Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang
Llewyrchus
Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
Cydnerth
Cymunedau Cydlynus
Iachach
Mwy Cyfartal

02_Testun syml

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru gydnerth
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal

03_Testun byr

Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Llewyrchus
Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cydnerth
Cymunedau Cydlynus
Iachach
Mwy Cyfartal

04_Logo

05_LICD

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

06_NLI

NODAU LLESIANT
WELL-BEING GOALS

07_Y Gymru a Garem

“Y GYMRU A GAREM
THE WALES WE WANT”

08_Map

09_NDC

**Graffigyn nodau llesiant**
I'w ddefnyddio ar y lefel uchaf yn unig wrth egluro sut mae'r nodau'n cysylltu â'i gilydd



**Logo’r nodau llesiant**

Testun syml

Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru iachach

Cymru sy’n fwy cyfartal

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

A Globally Responsible Wales

A Prosperous Wales

A Resilient Wales

A Healthier Wales

A More Equal Wales

A Wales of Cohesive Communities

A Wales of Vibrant Culture and Thriving Welsh Language

**Logo'r nodau llesiant**

Testun byr

Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Llewyrchus
Cydnerth
Iachach
Mwy Cyfartal
Cymunedau Cydlynus
Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Globally Responsible
Prosperous
Resilient
Healthier
More Equal
Cohesive Communities
Vibrant Culture and Thriving Welsh Language

## Logo’r nodau llesiant

**Logo'r nodau llesiant**
Teitl 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'

LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS

**Logo'r nodau llesiant**

Teitl 'Nodau Llesiant'

NODAU LLESIANT

WELL-BEING GOALS

**Logo'r nodau llesiant**

Logo 'Y Gymru a Garem'

"Y GYMRU A GAREM

THE WALES WE WANT"

## Map y nodau llesiant



**Logo'r nodau llesiant**
Y Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)

Logo graffig Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig

Logo'r Nodau Llesiant gyda chylch lliw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)

**Logo'r nodau llesiant**
Testun llawn gyda'r teitl
'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'

## Llewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.

## Cydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

## Iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## Mwy Cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

## Cyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

## Cymunedau Cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Logo'r nodau llesiant**
Testun byr gyda logo
'Y Gymru a Garem'

Mwy Cyfartal
More Equal

Iachach
Healthier

Cydnerth
Resilient

Llewyrchus
Prosperous

Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang
Globally Responsible

Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
Vibrant Culture and Thriving Welsh Language

Cymunedau Cydlynus
Cohesive Communities

"Y GYMRU A GAREM
THE WALES WE WANT"

# Y Nodau Llesiant

Gwerthoedd lliw




| | CMYK | | | | RGB | | | Hex |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | 33 | 19 | 100 | 4 | 184 | 177 | 14 | b8b10e |
| Cydnerth | 0 | 48 | 92 | 0 | 244 | 151 | 29 | f4971d |
| Iachach | 0 | 91 | 89 | 0 | 230 | 48 | 36 | e63024 |
| Mwy cyfartal | 23 | 96 | 66 | 16 | 172 | 36 | 60 | ac243c |
| Cymunedau cydlynus | 61 | 76 | 0 | 0 | 126 | 81 | 156 | 7e519c |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | 85 | 70 | 0 | 0 | 64 | 84 | 161 | 4054a1 |
| Cyfrifol ar lefel fyd-eang | 73 | 34 | 0 | 0 | 65 | 142 | 205 | 418ecd |

## Eiconau'r 'Ffyrdd o Weithio'

**1 – Integreiddio**

**2 – Atal**

**3 – Cydweithio**

**4 – Hirdymor**

**5 – Cynnwys**

1



2



3



4



5



**Opsiynau i'r gwrthwyneb**



**Enghraifft o faner arddangos**
Y nodau llesiant ac olwyn NDC

**Dyluniad**

Mae logo’r nodau llesiant yn edrych ar ei orau ar gefndir tywyll:
C0 M0 Y0 **K90**

Dylai elfennau gwyn fod:
C0 M0 Y0 **K10**






**Enghraifft o faner arddangos**

Logo’r nodau llesiant – testun byr






**Enghraifft o glawr dogfen**
Logo’r nodau llesiant






**Enghraifft o gynnwys dogfen**

Logo’r nodau llesiant



# Blaenoriaethau llesiant.

Ein huchelgais graidd yw tyfu twristiaeth er budd Cymru. Ond sut wnawn ni hynny?

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gorchymyn llesiant. Mae hyn yn golygu, wrth i gyrff cyhoeddus wneud eu penderfyniadau, bod angen iddynt ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Gwyddom, drwy alluogi pobl i fwynhau bywydau mewn lleoedd ledled Cymru, y gall twristiaeth gyfrannu at lesiant cymdeithas ehangach, gan wella cymunedau a'u ffordd o fyw, a helpu i werthfawrogi a gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol. Ond mae'n glir bod angen i dwristiaeth a'r diwydiant teithio gael eu rheoli'n ofalus er mwyn canfod ffyrdd o leihau rhai o'r effeithiau negyddol posibl, fel gormod o dwristiaeth ac allyriadau carbon drwy deithio.

Mae tyfu twristiaeth er budd Cymru yn golygu cyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd.

Dyma sut y byddwn yn cyflawni'r buddiannau ehangach hynny drwy'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn:

**Nodau**

**Twf economaidd sy'n cyflawni buddiannau i bobl a lleoedd gan gynnwys:**

| Cynaliadwyedd amgylcheddol | Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol | Buddiannau iechyd |
|---|---|---|
| – cynnal adnoddau naturiol<br>– gwella perfformiad amgylcheddol<br>– annog trafnidiaeth gynaliadwy | – croeso cynnes i bawb<br>– cyfleoedd i bobl ifanc<br>– iaith a diwylliant sy'n ffynnu | – cyfleoedd newydd i fwynhau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored<br>– hyrwyddo ffyrdd egnïol o fyw |

**Gwrando ar drigiolion, ymwelwyr a busnesau**





Traeth Harlech, Gwynedd

## Enghraifft ddigidol








OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49706, ISBN digidol 978-1-83577-856-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg